# Mewnosod falf endobronciaidd er mwyn lleihau cyfaint yr ysgyfaint mewn emffysema

20 Rhagfyr 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda mewn cleifion penodol sydd eisoes wedi cael triniaeth adsefydlu ar gyfer pobl â phroblemau gyda'r ysgyfaint. Nid oes unrhyw bryderon difrifol am ei diogelwch.

Mae emffysema yn glefyd cronig yn yr ysgyfaint sy'n achosi i waliau'r llwybrau anadlu llai yn yr ysgyfaint dorri i lawr. Mae hyn yn creu gofodau anarferol o fawr yn yr ysgyfaint sy'n golygu pan fydd person yn anadlu i mewn, y bydd y rhan fwyaf o'r aer yn mynd i mewn i'r gofodau hyn, gan leihau faint o aer sy'n cyrraedd y rhannau iach. Yn y driniaeth hon, caiff tiwb hyblyg tenau gyda chamera ar y pen (broncosgop) ei symud drwy'r trwyn neu'r geg i'r ysgyfaint, ac yna caiff falfiau unffordd bach eu gosod mewn rhai llwybrau anadlu sy'n arwain i'r rhannau o'r ysgyfaint sydd wedi'u niweidio. Y nod yw lleihau'r aer sy'n llifo i'r rhannau sydd wedi'u niweidio, gan alluogi mwy o aer i gyrraedd y rhannau iach.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2756-2

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights